



**Y Coleg
Merthyr Tudful**

**The College
Merthyr Tydfil**

Annwyl Riant/Gofalwr,

Y flwyddyn academaidd hon, o ganlyniad i bandemig Covid-19 a'r effaith ar addysgu a dysgu, cyhoeddodd y gweinidog addysg, Kirsty Williams y byddai'r gyfres arholiadau ar gyfer 2020/21 yn cael ei chanslo. Cadarnhaodd CBAC, yn ystod yr wythnos a oedd yn dechrau 15 Mawrth y fframweithiau asesu pwnc unigol ar gyfer ysgolion a cholegau o ran dulliau canolfannau o asesu cymwysterau UG, A2, TGAU a Bagloriaeth Cymru. Mae'n ofynnol i ganolfannau gynhyrchu Graddau a Bennir gan Ganolfannau (CDGs) ar gyfer pob dysgwr sy'n seiliedig yn gadarn ar dystiolaeth o'u cyflawniad. Mae hyn yn wahanol i ddull gweithredu'r llynedd lle defnyddiwyd Graddau a Aseswyd gan y Ganolfan gan nad oes rhagfynegiad yn gysylltiedig ac nad oes unrhyw safoni allanol i'w wneud gan y corff dyfarnu.

Defnyddir amrywiaeth o asesiadau i gynhyrchu'r dystiolaeth sy'n ofynnol i seilio Gradd a Bennir gan y Ganolfan. Yn y mwyafrif o bynciau, bydd gwaith sydd eisoes wedi'i gwblhau gan ddysgwyr yn cyfrannu at eu gradd lle bernir bod yr asesiad hwnnw'n addas i'r diben a bod y radd yn adlewyrchiad cywir o allu'r dysgwr. Mewn llawer o bynciau, bydd gwaith cwrs eisoes wedi'i gwblhau a bydd yn cyfrannu at y radd gyffredinol a ddyferniwyd ar gyfer y pwnc hwnnw. Credwn ei bod yn bwysig, lle y bo'n bosibl, bod dysgwyr yn cael eu gwobrwyo am y gwaith caled y maent eisoes wedi'i ddangos a'n bod yn cadw asesiad yn y dyfodol mor isel â phosibl tra'n glynu bob amser at fframweithiau CBAC.

Mae pob arweinydd pwnc wedi cynnig pa enghraifft o fframwaith CBAC y maent am ei ddilyn yn seiliedig ar y cynnwys sydd eisoes wedi'i gyflwyno a'i asesu. Yn y mwyafrif o achosion bydd hyn yn golygu bod dysgwyr yn cwblhau cyfres fer o gwestiynau papur cymeradwy CBAC yn ystod eu sesiynau arferol. Mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith nad arholiadau yw'r rhain ac na fyddant yn cael eu cynnal o dan amodau arholiadau. Bydd dysgwyr yn cael gwybod am y pwnc eang i'w asesu cyn i'r asesiad ddechrau ac mewn llawer o achosion bydd addasiadau i'r mesurau rheoli a ddefnyddir megis amseru a mynediad at lyfrau neu nodiadau. Mewn pynciau sy'n seiliedig ar Fathemateg a Gwyddoniaeth, efallai y bydd angen defnyddio mesurau llymach oherwydd natur y sgiliau a'r wybodaeth sy'n cael eu hasesu.

Lle mae cwestiynau a gynhyrchwyd gan CBAC eisoes wedi cael eu gweld neu eu trafod gan ddysgwyr fel rhan o'u hasesiad ffurfiannol, gall y cwestiynau hyn gael eu disodli gan y rhai o bapurau blaenorol gan gorff dyfarnu arall. Ni fyddwn yn cynhyrchu ein cwestiynau ein hunain i asesu dysgwyr. Byddem yn gobeithio'n fawr y gellir hwyluso'r asesiadau hyn ar y safle ac wyneb yn wyneb, ond mae angen i ni barhau'n hyblyg yn hyn o beth fel y gellir cynnal asesiadau ar-lein pe bai Llywodraeth Cymru yn gosod cyfyngiadau pellach ar gyfyngiadau symud, neu i nifer fawr o ddysgwyr orfod hunanynysu.

Pennaeth Principal Lisa M Thomas

Rhodfa'r Coleg Merthyr Tudful College Boulevard Merthyr Tydfil, CF48 1AR
Ffôn Tel +44(0)1685 726 000 Ffacs Fax +44(0)1685 726 100 www.merthyr.ac.uk

Rhif Confrestru'r Elusen 1140289, Charity Registration Number 1140289
Rhif Cwmni 06671721, Company Number 06671721
Rhif Taw 647857876, VAT Number 647857876



The College Merthyr Tydfil is
part of the University of South
Wales Group
Y Coleg Merthyr Tudful rhan
o Grŵp Prifysgol De Cymru



Er bod ymgais glir i fod yn gyson yn ein dull gweithredu, mae'n hanfodol deall na all cysondeb olygu'n union yr un fath. Mae gofynion y fframweithiau pwnc unigol yn amrywio o ran maint y gwaith, nifer yr asesiadau a'r dystiolaeth gyffredinol a argymhellir. Bydd cysondeb yn cael ei gyflawni yn ein dull o safoni mewnol lle bydd samplau o waith dysgwyr yn cael eu hail-farcio a thrafodaethau proffesiynol yn cael eu cynnal o fewn timau addysgu i sicrhau bod graddau'n deg ac yn gywir. Mewn pynciau lle mai dim ond un athro sy'n cyflwyno'r cynnwys, bydd yn gweithio gydag athro pwnc o ysgol neu goleg arall i ymgymryd â'r broses gymedroli a safoni. Yna bydd yr uwch dîm rheoli yn craffu ar bob gradd cyn ei chyflwyno i'n hadran Cofnodion Myfyrwyr.

Bydd Cofnodion Myfyrwyr yn rhoi gwybod i ddysgwyr am eu Graddau a Bennir gan y Ganolfan drwy'r post erbyn 11 Mehefin 2021. Ar ôl derbyn y graddau, bydd gan ddysgwyr bum diwrnod gwaith i ofyn am adolygiad gradd os yw'n ymddangos eu bod wedi cael graddau sy'n llawer is na'r disgwyl. Bydd y ceisiadau hyn yn cael eu gwneud yn uniongyrchol i Gofnodion Myfyrwyr ac ni ddylai unrhyw ddysgwr na rhiant gysylltu ag athrawon yn uniongyrchol i drafod y broses hon.

Mae Coleg Merthyr Tudful wedi ymrwymo i sicrhau tegwch a chywirdeb i bob dysgwr a bydd yn cefnogi ein dysgwyr yn llawn drwy gydol y broses hon. Bydd y ganolfan yn dryloyw o ran ei dulliau asesu fel bod dysgwyr a'u rhieni yn gwbl hyderus bod ein prosesau'n gadarn ac yn gynhwysol. Bydd cyfle i ymgysylltu â sesiwn holi ac ateb yn ddiweddarach yr wythnos hon os oes gennych unrhyw gwestiynau penodol nad eir i'r afael â hwy yn y cyfathrebu hwn. Amlinellir llinell amser arfaethedig isod yn ogystal â chrynodeb o'r prif bwyntiau a godwyd yn y llythyr hwn.

Dymuniadau gorau

Chris Ford

Cyfarwyddwr Dysgu